**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD CAER I FANGOR (A55)) (GWELLIANNAU AIL-ALINIO A SLIPFFYRDD CYFFORDD 16 AC 16A) 202-**

**DATGANIAD O RESYMAU**

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Gweinidogion Cymru, fe yr awdurdod priffyrdd perthnasol, yn gyfrifol am yr holl gefnffyrdd yng Nghymru. Mae Cefnffordd yr A55, a elwir hefyd yn Gefnffordd Caer i Fangor yn llwybr strategol ar hyd Arfordir Gogledd Cymru.

Bydd y cynllun arfaethedig yn cael gwared ar y gylchfan bresennol ar Gyffordd 16 yr A55 ac yn ei amnewid â chyffordd wedi'i gwahanu ar raddfa gyda throsbont a slipffyrdd yng Nghyffordd 16A. Cynigir cysylltiad newydd ar ffurf ffordd gyswllt rhwng Cyffordd 16 a Chyffordd 16A lle byddai'r slipffyrdd tua'r gorllewin yng Nghyffordd 16 yn cael eu cadw. I wneud lle ar gyfer y gwelliannau hyn, bydd cyfanswm hyd y gefnffordd newydd (gan gynnwys slipffyrdd a'r drosbont) yn oddeutu 3070 metr, gyda 1540 metr o ffordd gyswllt ddwy ffordd.

Yn ogystal, bydd oddeutu 480 metr o ffyrdd ochr yn cael eu heffeithio. Byddai'r gwelliannau ar hyd Ffordd Glan-yr-Afon yn cynnwys llwybr sy'n osgoi'r grid gwartheg newydd ar y groesfan dan signalau ar y drosbont arfaethedig ar Lwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 5 (NCNR5), lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud i feicwyr a cherddwyr. Bydd croesfan dan reolaeth signalau yn cael ei darparu i feicwyr/cerddwyr yng Nghyffordd 16A, gan ddarparu cysylltedd gwell a newydd i NCNR5, y traeth a llwybrau ymhellach i ffwrdd.

Mae chwech o strwythurau newydd yn y Cynllun, gan gynnwys y waliau cynnal a strwythurau cysylltiedig y slipffordd tua'r dwyrain a'r gorllewin, y drosbont yng Nghyffordd 16A dros ffordd ddeuol yr A55, strwythurau i hwyluso Croesfan Afon Gyrach a'r bont droed yn Nwygyfylchi.

Bydd y Cynllun yn darparu dros 2km o welliannau teithio llesol, gan gynnwys ffyrdd beicio / llwybrau troed a chroesfannau oddi ar y ffordd newydd. Bydd y gwaith hwn yn ymestyn o Ffordd Conwy ym Mhenmaenmawr i'r de o Gyffordd 16 ar yr A55 sydd wedi'i gwella i Ffordd Glan-yr-Afon yn Nwygyfylchi ac i'r ffordd gyswllt newydd arfaethedig. Bydd y gwelliannau hyn yn gwella diogelwch cerddwyr a beicwyr, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio NCNR5.

Hefyd, bydd y cynllun yn rhoi sylw i nifer o nodweddion is-safonol ar y gefnffordd yng nghyffiniau'r cyffyrdd. Yr amcan allweddol ar gyfer y cynllun yw gwella mynediad i farchnadoedd a chyfleoedd cyflogaeth rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol; yn ogystal â gwella gwytnwch a diogelwch, a lleihau oedi i draffig lleol ac i bobl sy'n teithio ar hyd yr A55.

Mae'r cynigion yn cynnwys:

a. Y Gorchymyn Llinell drafft, sydd eisoes wedi'i gyhoeddi, i ddarparu ar gyfer adeiladu hyd newydd o gefnffordd a slipffyrdd.
b. Y Gorchymyn Ffyrdd Ochr drafft, sydd eisoes wedi'i gyhoeddi, i gau fyny rannau o'r gefnffordd sydd wedi'u disodli a'u cau i fyny, gwella, creu neu addasu ffyrdd, llwybrau troed, llwybrau beicio a mynedfeydd preifat eraill.
c. Y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft, sydd bellach wedi'i gyhoeddi, i ddarparu ar gyfer caffael y tir a'r hawliau sydd eu hangen ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw'r cynllun.

(Cyfeirir atynt gyda'i gilydd yn "Gorchmynion drafft")

Paratowyd Datganiad Amgylcheddol (ES) ar y cyd â'r Gorchmynion drafft uchod ac mae ar gael i'w archwilio yn y lleoliadau adneuo a restrir yn Adran 10. Mae'r cynllun hwn yn ddarostyngedig i Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA) yn unol ag Adran 105A Deddf Priffyrdd 1980, Cyfarwyddeb 2014/52/EU (a ddiwygiodd Gyfarwyddeb 2011) a'r Rheoliadau Asesiad Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol yn ymwneud â Harbyrau, Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2017.

Yn unol â Rheoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, paratowyd Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (SIAA) ar yr effeithiau posib sy'n gysylltiedig gyda'r cynllun

arfaethedig ar AGA (Ardal Gwarchod Arbennig) Lerpwl ac ACA (Ardal Cadwraeth Arbennig) Y Fenai a Bae Conwy.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn disgrifio'r cynigion, yn adnabod y prif effeithiau amgylcheddol ar yr amgylchedd naturiol a dynol ac yn disgrifio'r mesurau arfaethedig i osgoi, unioni neu leihau effeithiau a chynnig gwelliannau amgylcheddol lle bo hynny'n berthnasol.

Adroddir am y Datganiad Amgylcheddol mewn pedair rhan:

- Crynodeb Annhechnegol
- Cyfrol 1 - Adroddiad Asesiad Technegol
- Cyfrol 2 - Ffigyrau
- Cyfrol 3 - Atodiadau Technegol

Mae’r Crynodeb Annhechnegol (NTS) yn crynhoi’r Datganiad Amgylcheddol mewn iaith annhechnegol. Cyfrol 1 yw'r prif adroddiad asesiad technegol, sy'n manylu ar fethodolegau a chanlyniadau'r EIA. Mae'n nodi'r ffyrdd ble gellir lliniaru yn effeithiol yr effeithiau a nodwyd. Mae Cyfrol 2 yn gyfres o ffigyrau ategol y dylid eu darllen ar y cyd â Chyfrol 1. Mae Cyfrol 3 yn gyfres o atodiadau technegol y dylid hefyd eu darllen ar y cyd â Chyfrol 1.

## 2. CEFNDIR Y CYNLLUN

Gwnaed gwaith estynedig gan ystyried diogelwch y ffordd ar hyd Cefnffordd yr A55, ger Penmaenmawr, sy'n dyddio'n ôl i 2005. Mae llawer o'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar asesu opsiynau i wella'r gylchfan yng Nghyffordd 16, sy'n llesteirio llif y traffig ar hyn o bryd. Yn 2011, cafodd cynllun ei gynnwys yng Nghynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) i wella Cyffordd 16 yr A55. Gwnaed ymrwymiad pellach i wella'r gyffordd yn 2015 yn y Cynllun Cyllido Trafnidiaeth Cenedlaethol.

Cafodd opsiynau ar gyfer ymyraethau trafnidiaeth a mesurau trafnidiaeth cysylltiedig eu harfarnu mewn astudiaethau a gynhaliwyd gan Capita yn 2005, Atkins rhwng 2008 a 2011 ac yn fwyaf diweddar gan Ramboll fel rhan o astudiaeth Cam 1 Canllaw Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a gynigiodd restr fer o opsiynau.

Mae proses asesu WelTAG yn datblygu, yn arfarnu ac yn gwerthuso unrhyw ymyrraeth trafnidiaeth arfaethedig. Datblygwyd WelTAG 2017 i adlewyrchu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae WelTAG 2017 yn sicrhau, ar gyfer unrhyw gynllun ffordd arfaethedig, bod yr holl opsiynau arfaethedig yn cael eu mesur yn erbyn sut maent yn effeithio ar gymunedau lleol a rhan-ddeiliaid allweddol o safbwynt effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Mae'r asesiad hefyd yn ystyried sut mae pob opsiwn yn cyfrannu at y nodau llesiant ac amcanion y prosiect.

Tuag at ddiwedd yr astudiaeth WelTAG Cam 1, arfarnwyd y rhestr hir o opsiynau a ddatblygwyd yn ystod yr astudiaeth ac fe gyflwynwyd rhestr fer o opsiynau. Dyma’r rhestr fer a gyflwynwyd yn yr Arddangosfeydd Gwybodaeth Gyhoeddus ym mis Rhagfyr 2017.

Yn dilyn yr arddangosfeydd hyn, cafodd y rhestr fer o opsiynau ei astudio yn fanylach, gan ystyried yr adborth a dderbyniwyd gan y cyhoedd a rhan-ddeiliaid allweddol yn ystod yr arddangosfeydd hyn. Fel rhan o’r asesiad hwn, fe ail-aseswyd y rhestr fer o opsiynau yn erbyn yr Amcanion Prosiect cytunedig. Yn ogystal, fe arfarnwyd eu heffeithiau byrdymor a hirdymor mewn perthynas â datblygiad cynaliadwy a llesiant diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru a’u gallu i uchafu’r cyfraniad at saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Hefyd, fe aseswyd ffactorau yn ymwneud â derbynioldeb, dichonolrwydd, risg a fforddiadwyedd. Bu i’r asesiadau hyn ffurfio’r sail i’r rhestr fer o opsiynau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn yr haf 2018.

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, dangosodd dadansoddiad o'r holiaduron a'r ymatebion bod cefnogaeth i'r gwelliannau ar hyd Cyffyrdd yr A55 rhwng Cyffyrdd 14 a 16A, yn benodol y gwelliannau i Gyffyrdd 16. I fynd i'r afael â materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gwnaed gwaith pellach, gan gynnwys camau gweithredu i asesu dichonolrwydd isafu’r dymchwel eiddo

preswyl ac ymgynghori ag aelodau'r gymuned. Arweiniodd hyn at y Llwybr a Ffafrir a gafodd ei gyhoeddi ar 5 Ebrill 2019.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Llwybr a Ffafrir, ystyriwyd nifer o welliannau dylunio, gan gynnwys:

- Trefniant y cae chwaraeon anffurfiol a'r mannau agored cyhoeddus gerllaw i Wasanaethau Puffin.
- Nifer o fân-gynlluniau ar gyfer defnyddwyr nad ydynt yn defnyddio modur ar gyfer gwella'r llwybrau teithio llesol gan gynnwys cysylltiadau â Sustrans 5 (NCNR5) a'r Hawliau Tramwy presennol.
- Darparu ar gyfer diogelwch cerddwyr a beicwyr sy'n croesi'r ffordd gyswllt a'r A55, yn enwedig yng nghyffiniau Gwasanaethau Puffin ac yng Nghyffordd 16A.
- Lledu Ffordd Glan-yr-Afon.
- Darpariaeth ar gyfer rheoli digwyddiadau.

Bydd Adroddiad Datblygiad Cynaliadwy hefyd ar gael.

## 3. AMODAU PRESENNOL

Mae'r problemau a nodwyd ar y gefnffordd y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â hwy yn cynnwys:

- Materion amgylcheddol gan gynnwys yr effaith sŵn a gweledol sy'n gysylltiedig â'r A55. Mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod y rhan ar hyd yr A55 ger Llanfairfechan a Phenmaenmawr fel ardal â blaenoriaeth ar gyfer ymyrraeth yng Ngogledd Orllewin Cymru yn seiliedig ar fapiau sŵn 2007.
- Materion cymdeithasol gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â dibyniaeth y cymunedau ar yr A55, yn ogystal ag effaith yr A55 o ran ei bod yn torri'r cymunedau oddi wrth eu hunain a'r arfordir.
- Diogelwch - nid yw'r Cyffyrdd a phrif lein yr A55 rhwng Cyffyrdd 14 ac 16A yn cydymffurfio â safonau dylunio cyfredol. Yn seiliedig ar yr adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus, mae canfyddiad bod y cylchfannau yn beryglus, gydag aelodau o'r cyhoedd yn codi pryderon ynghylch methiannau agos a'u hofnau wrth ddefnyddio'r cyffyrdd.
- Oedi - mae coridor yr A55 yn profi cynnydd tymhorol yng nghyfaint y traffig, yn enwedig yn ystod penwythnosau yn yr haf a phan mae'r llif brig yn cyd-fynd â'r fferi.
- Gwytnwch Rhwydwaith Gwael - mae'r prif faterion a nodwyd yn ymwneud â diffyg llwybrau gwyro lleol a strategol, yn ystod digwyddiadau neu waith sydd wedi'i gynllunio, a'r gofynion gweithredu i gynnal a chadw'r twnelau.
- Teithio Cynaliadwy - Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi nodi bod canfyddiad o ddiffyg opsiynau teithio cynaliadwy cystadleuol, mynediad gwael at yr arfordir i ddefnyddwyr nad ydynt yn defnyddio modur, a phryderon o ran diogelwch beicwyr.

## 4. Y CYD-DESTUN POLISI

Adroddir am adolygiad y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ar gyfer y cynllun o safbwynt amgylcheddol ym Mhennod 5 y Datganiad Amgylcheddol. Mae polisïau sy'n benodol i bynciau'r asesiad yn cael eu nodi ymhellach a'u hystyried ym mhenodau pwnc asesu'r Datganiad Amgylcheddol (Rhifyn 1, Pennod 7 i 16).

I grynhoi, er bod amrediad eang o ddeddfwriaeth a dogfennau polisi wedi cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun, mae'r brif ddeddfwriaeth a'r dogfennau polisi sy'n cael eu hystyried yn y Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys:

1) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;
2) Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016;
3) Deddf Cynllunio (Cymru) 2015;
4) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
5) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013;
6) Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017;

7) Deddf Newid Hinsawdd 2008;
8) Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006;
9) Deddf Hawliau Dynol 1998;
10) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd);
11) Deddf Priffyrdd 1980;
12) Ffyniant i Bawb - Y Strategaeth Genedlaethol 2017;
13) Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel 2019;
14) Symud Cymru Ymlaen 2016;
15) Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol i Gymru 2010 a'i Gynllun Ariannol 2015, 2017, 2018;
16) Coridorau Gwyrdd ar Rwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd Llywodraeth Cymru 2018 a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystâd Cefnffyrdd 2004;
17) Cynllun Buddsoddi Isadeiledd Cymru 2012;
18) Adnewyddu'r Economi, Cyfeiriad Newydd 2010;
19) Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd 2017;
20) Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned 2009;
21) Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008;
22) Blaen Raglen Cefnffyrdd 2002, 2004 a 2008;
23) Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006;
24) Cymru - Economi yn Ffynnu Tachwedd 2005;
25) Cynllun Gofodol Cymru Diweddariad 2008;
26) Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10, 2018;
27) Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth 2007;
28) Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol 2017;
29) Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd 2014;
30) Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio 2009;
31) Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygiad a Pherygl Llifogydd 2004;
32) Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn 1997;
33) Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Conwy;
34) Map Rhwydwaith Integredig Conwy.

Gweler isod ddisgrifiad o'r prif bolisïau o safbwynt trafnidiaeth, perthnasol i'r cynllun, ar lefelau'r DU a Chymru. Yn ogystal, bydd y cynllun yn ystyried canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y Coronafeirws (COVID-19).

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
Mae Deddf 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gyda nod drosfwaol o greu Cymru yr hoffai pob un ohonom fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant ac yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, a'r rhai sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i weithio a gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. I gynorthwyo i wneud hyn, rhaid iddynt osod a chyhoeddi amcanion llesiant a meddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well â phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio dull mwy cyd-gysylltiedig.

Mae adroddiadau WelTAG yn ystyried sut byddai'r gwelliannau i Gyffyrdd 16 ac 16A yr A55 yn cyfrannu at y nodau llesiant, yr amcanion llesiant a'r ffyrdd o weithio.

**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**
Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru fapio a chynllunio ar gyfer llwybrau addas ar gyfer teithio llesol, ac adeiladu ar a gwella eu seilwaith ar gyfer cerdded a beicio bob blwyddyn. Mae'n creu dyletswyddau newydd er mwyn i awdurdodau priffyrdd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr a gwneud gwell darpariaeth ar eu cyfer. Yn ogystal, mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo cerdded a beicio fel dull trafnidiaeth fel bod cymunedau lleol yn dibynnu llai ar geir wrth deithio ar siwrneion byr.

Yng nghyd-destun cynlluniau ffordd, mae cyfle arwyddocaol i ail-ffurfweddu'r seilwaith presennol fel ei fod yn bodloni anghenion aneddiadau newydd a phresennol yn well ac yn hwyluso teithio llesol. Er enghraifft, mae'r cynllun yn ceisio darparu opsiynau teithio iach a llesol ar ymyl yr A55 drwy ddarparu hygyrchedd cynaliadwy a gwell rhwng ardaloedd lleol a'r morlin.

**Deddf Newid Hinsawdd 2008**
Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ledled y DU yn 2050 i lefel sydd o leiaf 80% yn is na lefel yr allyriadau yn 1990. Mae hefyd yn rhoi ymrwymiad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i osod cyllidebau carbon ar gyfer cyfnodau pum mlynedd dilynol a pharatoi cynigion a pholisïau ar gyfer cwrdd â'r cyllidebau carbon hynny. Mae Rhan 2 y Ddeddf yn sefydlu'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.

**Deddf Priffyrdd 1980**
Mae'r cynllun yn cael ei hyrwyddo a byddai'n cael ei adeiladu gan ddefnyddio pwerau Gweinidogion Cymru fel Awdurdod Priffyrdd yn unol â Deddf Priffyrdd 1980. Trosglwyddwyd y pwerau hyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae gan Weinidogion Cymru awdurdod statudol i adeiladu priffordd newydd neu wella priffordd bresennol dan adrannau 24 a 62 Deddf Priffyrdd 1980. Byddai'r holl bwerau ategol sydd eu hangen i adeiladu'r rhan newydd o gefnffordd a stopio, addasu, gwella ac adeiladu priffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus a dulliau mynediad preifat ac ati, yn cael eu gweithredu drwy lunio gorchmynion statudol. Mae'r pwerau y mae Gweinidogion Cymru yn dibynnu arnynt yn cael eu nodi yn y gorchmynion statudol hyn ac maent i gael eu cyhoeddi ar ffurf drafft ynghyd â gorchymyn prynu gorfodol fydd, os y'i gwneir, yn galluogi Gweinidogion Cymru i gaffael yr holl diroedd a hawliau dros diroedd sydd eu hangen er mwyn adeiladu a gweithredu'r cynigion.

**Ffyniant i Bawb - Y Strategaeth Genedlaethol 2017**
Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei nod hirdymor i adeiladu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, iach ac actif, uchelgeisiol a dysgu, ac unedig a chysylltiedig.

**Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel 2019**
Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel yn gosod y sylfeini er mwyn i Gymru drawsnewid yn genedl carbon isel ac yn gweithio o fewn cyd-destun Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n gofyn i Lywodraeth Cymru leihau'r allyriadau o nwyon tŷ gwydr yng Nghymru 80% ar gyfer y flwyddyn 2050. Yn ogystal, mae'n gosod targed y dylai Llywodraeth Cymru geisio cyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Mae'r cynllun yn nodi mesurau ar gyfer sut mae cynlluniau Llywodraeth Cymru yn bwriadu bodloni'r gyllideb carbon gyntaf (2016-20).

Ar 29 Ebrill 2019, bu i Lywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd yng Nghymru i dynnu sylw at faint ac arwyddocâd y dystiolaeth ddiweddaraf o'r Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd a thynnu sylw at y protestiadau hinsawdd diweddar ledled y DU.

Cyfeiriodd y datganiad at Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel (a gyhoeddwyd y mis blaenorol) ac fe nododd bod y Cynllun hwn yn gosod y polisïau a'r cynigion sydd wedi'u bwriadu i fodloni targedau allyriadau carbon 2020. Bu i'r datganiad gyfeirio at y targedau a osodwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru yn 2017, gan ail-bwysleisio'r ymrwymiad i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Nododd Llywodraeth Cymru bod y cynllun nesaf, fydd yn gosod mesurau i fodloni targedau lleihau allyriadau erbyn 2021-26, yn cael ei baratoi a'i fod angen mynd ymhellach a symud yn gyflymach.

**Symud Cymru Ymlaen 2016**
Mae Symud Cymru Ymlaen yn nodi rhaglen y llywodraeth i yrru gwelliant yn economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gyflwyno Cymru sy'n ffyniannus ac yn ddiogel, yn iach ac actif, yn uchelgeisiol a dysgu, ac unedig a chysylltiedig.

**Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol i Gymru 2010 a'i Gynllun Ariannol 2010, 2015, 2017, 2018**
Fe'i cyhoeddwyd yn 2015 gan Lywodraeth Cymru a bu i'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol i Gymru ddilyn Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol 2010 i restru'r cynlluniau y ceisiodd Llywodraeth Cymru eu cyflwyno ledled y meysydd polisi trafnidiaeth amrywiol y mae'n gyfrifol amdanynt. Nid yw Cynllun 2018 yn ddogfen bolisi ynddi'i hun, ond mae'n darparu fframwaith o gynlluniau sy'n unol â'r amcanion polisi sydd wedi'u nodi yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2008.

Manylir ar gynllun i wella'r A55 yng Nghyffyrdd 15 ac 16 yn y cynllun dan gyfeirnod R18. Mae'r cynllun yn cael ei ddisgrifio fel Dylunio ac Adeiladu cyffyrdd sydd wedi'u gwahanu ar raddfa yng Nghyffyrdd 15 ac 16 ar yr A55. Mae'r cynllun yn cynnwys slipffyrdd newydd a thanbont yn

Llanfairfechan a throsbont a slipffyrdd newydd yn Nwygyfylchi. Ni chafodd y gwelliannau i Gyffyrdd 14 ac 16A eu cynnwys yn yr ystyriaethau ar y pryd. Ers hynny, mae'r rhain wedi'u cynnwys er mwyn galluogi'r gwelliannau i Gyffyrdd 15 ac 16.

**Coridorau Gwyrdd ar Rwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd Llywodraeth Cymru 2018 a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystâd Cefnffyrdd 2004**
Mae gan Lywodraeth Cymru, fel Awdurdod Priffyrdd ar gyfer cefnffyrdd yng Nghymru, gyfrifoldeb uniongyrchol am gynnal a chadw, gwella a datblygu'r rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru. Dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ystyried cadwraeth bioamrywiaeth fel rhan o'i waith.

Mae Cyfadran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru eisoes yn ymgorffori bioamrywiaeth yn ei waith ac mae'r TREBAP1 wedi cyfrannu at y broses barhaus hon.

Bu i TREBAP osod 11 o Gynlluniau Gweithredu Cynefinoedd ac 17 o Gynlluniau Gweithredu Rhywogaethau, rhai ohonynt sy'n berthnasol yn uniongyrchol i'r cynllun: nodweddion ffin, cynefinoedd arfordirol ac aberol, glaswelltir sych iseldirol, dolydd iseldirol, cyrff dŵr, coedlannau a choed a phrysglwyni brodorol wedi'u plannu, ystlumod, dyfrgwn ac ymlusgiaid. Bydd y fenter Coridorau Gwyrdd ar Rwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno yn erbyn y Cynllun Gweithredu Economaidd[2], creu economi gynaliadwy a hyrwyddo llesiant economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, a chyfoethogi ansawdd bywyd pobl yng Nghymru.

Dros gyfnod o bum mlynedd, bydd y fenter yn cyflwyno rhaglen o waith a gweithgareddau. Bydd y gwelliannau i'r gyffordd yn cyfrannu gwaith plannu coed a phrysglwyni i wella strwythur ac amrediad oedran yr ardal sydd wedi'i phlannu, yn cyflwyno ardaloedd o flodau gwyllt ar gyfer ansawdd gweledol ac i beillwyr, creu coridorau bywyd gwyllt a chyfrannu at enciliad carbon.

**Cynllun Buddsoddi Isadeiledd Cymru 2012**
Mae Cynllun Buddsoddi Isadeiledd Cymru ar gyfer Twf a Swyddi (WIIP) wedi'i ddylunio i flaenoriaethu, sgopio a chydlynu cyflwyniad buddsoddiadau isadeiledd mawr Llywodraeth Cymru, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor pobl a chymunedau yng Nghymru.

Mae'r Cynllun, drwy Bennod 1, yn gosod nifer o flaenoriaethau buddsoddi lefel uchel, gan gynnwys: 'Gwella cysylltiadau trafnidiaeth, yn benodol gysylltiadau trafnidiaeth Dwyrain-Gorllewin yng Ngogledd a De Cymru'. Mae'r flaenoriaeth hon yn cael ei harchwilio ymhellach drwy Bennod 2 y Cynllun sy'n amlinellu nod o gael y mwyaf allan o'r rhwydwaith ffyrdd presennol drwy fynd ati i gynnal a chadw a diweddaru wrth gynllunio'n dda er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith ffordd yn gweithredu'n fwy effeithlon drwy:

a) Flaenoriaethu buddsoddiadau sy'n cyfrannu at dwf economaidd - rhoi sylw i dagfeydd trefol a gwella mynediad at ardaloedd allweddol, a thrwy wella capasiti a dibynadwyedd ein coridorau dwyrain-gorllewin allweddol.
b) Bod yn fwy hyblyg yn ein dull o ddatblygu datrysiadau i broblemau gwaelodol i fynd i'r afael â phroblemau y mae pobl yn eu hwynebu bob dydd.

Mae'r A55 yn ffurfio rhan o lwybr y Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd (TENs) ac mae'r Cynllun yn adnabod pwysigrwydd y llwybr.

**Adnewyddu'r Economi, Cyfeiriad Newydd 2010**
Cyhoeddwyd Adnewyddu'r Economi, Cyfeiriad Newydd, ym mis Gorffennaf 2010. Mae'n nodi'r rôl y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae o ran darparu'r amodau a'r fframwaith gorau fel bod modd i'r sector preifat dyfu a ffynnu. Mae Rhan 3 y ddogfen yn annog buddsoddiad mewn seilwaith o ansawdd uchel a chynaliadwy i danategu twf economaidd. Bydd angen i bobl, busnesau a chymunedau fod wedi'u cysylltu'n dda o fewn Cymru a thu hwnt er mwyn cael mynediad at y cyfleusterau a'r gwasanaethau cywir lle maent yn byw ac yn gweithio. Rhaid i fuddsoddwyr a

1 Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystâd Cefnffyrdd (TREBAP) (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004b) (TREBAP)

2 Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd 2017

busnesau brodorol fedru dibynnu ar seilwaith cyfathrebu, trafnidiaeth, ynni a seilwaith arall sy'n angenrheidiol ar gyfer mentrau yn yr 21ain ganrif.

**Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned 2009**
Lansiwyd Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2009. Mae’r ddogfen yn nodi’r amcanion i gyflawni’r nod o ddatblygiad cynaliadwy. Mae’r ddogfen hon yn nodi’r amcanion i gyflawni’r nod o ‘alluogi’r holl bobl ar draws y byd i fodloni eu hanghenion sylfaenol eu hunain a mwynhau gwell ffordd o fyw heb gyfaddawdu ansawdd bywyd cenedlaethau’r dyfodol.’

**Cymru'n Un: Cysylltu’r Genedl – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008**
Cafodd ei chyhoeddi yn 2008, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd, a nod trosfwaol Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yw hyrwyddo'r rhwydweithiau trafnidiaeth cynaliadwy sy'n diogelu'r amgylchedd wrth gryfhau perfformiad economaidd a chymdeithasol y sir. Paratowyd y strategaeth yng nghyd-destun rhaglen Cymru'n Un, rhaglen flaengar ar gyfer Cymru. Mae'r strategaeth hon yn nodi nifer o ddeilliannau polisi, sy'n cael eu cyflwyno drwy flaenoriaethau strategol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Lleihau'r effeithiau amgylcheddol o drafnidiaeth;
- Integreiddio trafnidiaeth leol;
- Gwella mynediad rhwng aneddiadau a safleoedd allweddol;
- Cyfoethogi cysylltedd rhyngwladol; a
- Chynyddu diogelwch.

**Blaen Raglen Cefnffyrdd 2002, 2004 a 2008**
Nod Blaen Raglen Cefnffyrdd 2002 Llywodraeth Cymru oedd gwella'r amodau economaidd a chymdeithasol yng Nghymru, drwy gynyddu effeithiolrwydd a hygyrchedd ymhob ardal. Cafodd yr A55 ei hadnabod yn y Blaen Raglen o fewn 'coridor strategol y Dwyrain - Gorllewin (gogledd)'.

**Cymru - Economi yn Ffynnu 2005**
Cyhoeddwyd Cymru - Economi yn Ffynnu ym mis Tachwedd 2005 a dyma'r fframwaith strategol ar gyfer datblygiad economaidd yng Nghymru. Prif weledigaeth y ddogfen yw creu; 'economi lewyrchus i Gymru sy’n sicrhau twf economaidd cynaliadwy trwy estyn cyfleoedd i bawb.'

**Cynllun Gofodol Cymru Diweddariad 2008**
Yn y pen draw, drwy ddarpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 bydd Cynllun Gofodol Cymru yn cael ei ddisodli gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) pan y'i cyhoeddir. Mae'r rhaglen wedi awgrymu cyhoeddi yn 2020. Fodd bynnag, ni chyhoeddwyd unrhyw ddiweddariad hyd yma. Felly, mae Cynllun Gofodol Cymru'n parhau i fod yn berthnasol i'r asesiad hwn.

Mae'r cynllun wedi'i leoli yng Ngogledd Orllewin Cymru, Eryri a Môn ym Mhennod 17 y Cynllun Gofodol. Y weledigaeth ar gyfer yr ardal hon yw: 'Amgylchedd naturiol a ffisegol o ansawdd sy’n cefnogi economi sy’n seiliedig ar ddiwylliant a gwybodaeth fydd yn gymorth i'r ardal gyfoethogi a gwella ei chymeriad nodedig, a chadw a denu pobl ifanc yn ôl a chynnal yr iaith Gymraeg.'

(Ar gael yn Saesneg yn unig) ‘*Internal connectivity within the region, across its dispersed settlements, to the Central Wales region and between Eryri a Môn’s primary and secondary hubs and the rural areas is more complex but crucial to ensuring the distribution of growth and access to services and leisure especially with NHS services being delivered out of hospitals and closer to home. A suitable road network must be maintained along with the further development of public transport. Opportunities to develop the region’s other mainline (Conwy Valley and Cambrian Coast) and leisure railways for the transportation of people and goods, where appropriate, must also be considered… Work to address the capacity issues on the Britannia Bridge and the A487 around Caernarfon to help improve this link further is also required as is the enhancement of the road network within the region especially in relation to the main north-south and east-west corridors.’ A suitable road network must be maintained along with the further development of public transport. Opportunities to develop the region’s other mainline (Conwy Valley and Cambrian Coast) and leisure railways for the transportation of people and goods, where appropriate, must also be considered… Work to address the capacity issues on the Britannia Bridge and the A487 around Caernarfon to help improve this link further is also required as is the*

*enhancement of the road network within the region especially in relation to the main north-south and east-west corridors.*'

**Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10, 2018**
Yng nghyd-destun cynlluniau trafnidiaeth, mae PCC10 yn cydnabod y gellir hyrwyddo Cymru ffyniannus drwy ddatblygu seilwaith modern a chysylltiedig ac er mwyn creu cymunedau cydlynus, rhaid iddynt fod wedi'u cysylltu'n dda.

Mae PCC10 yn nodi'r rôl allweddol y mae seilwaith trafnidiaeth megis cefnffyrdd a thraffyrdd yn ei chwarae ar gyfer cysylltedd cenedlaethol a rhyngwladol. Dylid galluogi mynediad at swyddi a gwasanaethau drwy siwrneion byrrach, mwy effeithlon a chynaliadwy drwy'r system cynllunio; gyda seilwaith newydd fel dull o gyflawni hyn.

**Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth 2007**
Mae NCT18 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007) yn annog system trafnidiaeth effeithlon a chynaliadwy fel gofyniad ar gyfer cymdeithas fodern. Mae'n nodi, er mwyn cyflawni patrwm o ddatblygiad mwy cynaliadwy, mae'n angenrheidiol deall y rhyngweithiad a'r cysylltiadau rhwng defnydd tir a thrafnidiaeth a dyfeisio strategaethau, amcanion a pholisïau integredig ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

**Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Conwy**
Mae polisi cynllunio ar lefel sirol yn darparu gweledigaeth glir ar sut y gall datblygiad newydd fynd i'r afael â'r heriau i'w hwynebu ac yn adnabod lle, pryd a faint o ddatblygiad newydd fydd yn digwydd yng Nghonwy hyd at 2022. Mae Ardal y Cynllun yn gyfoeth o asedau hanesyddol, mae yno ddiwydiant twristiaeth ffyniannus, cysylltiadau trafnidiaeth gwych, ansawdd dŵr ac aer da ac amgylchedd naturiol o ansawdd uchel (gan gynnwys arfordir a chefn gwlad). Fodd bynnag, mae'r rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd wedi dangos y gallai poblogaeth Ardal y Cynllun gynyddu wrth gymaint â 7,850 o bobl erbyn 2022.

Un o amcanion Gofodol y CDLl yw annog patrymau effeithlon o symud ac adnabod y rôl strategol y bydd yr A55 a'r coridorau rheilffordd yn eu chwarae wrth fodloni anghenion datblygu Ardal y Cynllun, a rhoi sylw penodol i leoliadau datblygiadau sy'n gyfleus i gerddwyr, cerdded a beicio yng Nghonwy er mwyn cynorthwyo i leihau'r allyriadau $CO_2$ a ddaw o drafnidiaeth.

**Map Rhwydwaith Integredig Conwy**
Mae cynigion y Map Rhwydwaith Integredig yn ofyniad Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r Map Rhwydwaith Integredig yn nodi gweledigaeth 15 mlynedd Cyngor Conwy i wella llwybrau beicio a cherdded a gwelliannau ar gyfer teithio llesol. Mae nifer o lwybrau teithio llesol wedi'u hadnabod o amgylch yr A55 ym Mhenmaenmawr a Llanfairfechan.

## 5. YMGYNGORIADAU

Mae'r cyhoedd yn ehangach wedi cael gwybod am y cynllun arfaethedig drwy ymarferiad ymgynghoriad cyhoeddus llawn a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin ac Awst 2018 a dwy arddangosfa gwybodaeth cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2017 a Mehefin 2019 mewn lleoliadau lleol. Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r arddangosfeydd gwybodaeth cyhoeddus, anogwyd pobl i gwblhau ffurflenni adborth a/neu holiaduron. Mae'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriadau hyn wedi cael eu hystyried yn ystod y broses ddylunio ac mae'r Gorchmynion drafft wedi'u datblygu. Bu hefyd ymgysylltiad parhaus â rhan-ddeiliaid drwy'r Swyddog Cyswllt Cyhoeddus a'r tîm prosiect, fel y disgrifir isod.

Ymgynghorwyd â Chyrff Amgylcheddol a rhan-ddeiliaid eraill yn unigol ac fel rhan o'r Grŵp Cyswllt Amgylcheddol (ELG) wrth esblygu'r dyluniad. Mae'r ELG yn dod â chynrychiolwyr ynghyd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Gwasanaethau Cynllunio Archeoleg Gwynedd ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Bwriedir i'r ELG barhau i gwrdd yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod cyn-adeiladu a'r cyfnod adeiladu.

Yn ogystal, mae manylion y Cynllun wedi'u cyflwyno i Gomisiwn Dylunio Cymru, Sustrans, Cycling UK a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ynghyd â Chynghorau Tref a chynghorwyr lleol. Mae eu sylwadau hefyd wedi'u hystyried yn natblygiad y cynllun, gan gynnwys y cynigion teithio llesol.

Mae Ymgymerwyr Statudol wedi'u hymgynghori ynghylch gwyriadau a gwarchod y seilwaith. Yn ogystal, mae trafodaethau manwl wedi'u cynnal â Network Rail. Mae cyswllt wedi'i wneud â thirfeddianwyr a phobl lle byddai eu heiddo neu fynedfeydd preifat yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynllun ac maent wedi cael gwybod am fanylion y cynllun arfaethedig. Lle roedd gan dirfeddianwyr bryderon neu ymholiadau penodol, mae'r tîm prosiect wedi darparu gwybodaeth drwy'r swyddog Cyswllt Cyhoeddus.

## 6. AMCANION Y CYNLLUN

Gan ystyried yr angen i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd ac yn unol â pholisi cenedlaethol a lleol, nodwyd yr 11 amcan a ganlyn:

| | |
|---|---|
| OBJ1) | Gwella mynediad i farchnadoedd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol a gwella mynediad i gyfleoedd gwaith |
| OBJ2) | Gwella diogelwch ffyrdd ar yr A55 o Gyffordd 14 i Gyffordd 16A |
| OBJ3) | Gwella amseroedd siwrnai a dibynadwyedd amser siwrnai ar yr A55 o Gyffordd 14 i Gyffordd 16A |
| OBJ4) | Gwella gwytnwch ar yr A55 ar gyfer traffig strategol a lleol |
| OBJ5) | Gwella amseroedd siwrnai a dibynadwyedd amser siwrnai a diogelwch ar gyfer mynediad ar yr A55 o Lanfairfechan a Phenmaenmawr |
| OBJ6) | Lleihau'r datgysylltiad ag ardaloedd arfordirol ar gyfer defnyddwyr nad ydynt yn defnyddio modur a gwella'r ddarpariaeth a wneir i gerddwyr a beicwyr |
| OBJ7) | Cyfrannu at adeiladu cymunedau iachach a gwell amgylcheddau |
| OBJ8) | Cynyddu cyfleoedd i ddarparu trafnidiaeth integredig |
| TECH OBJ9) | Lleihau gwyriadau technegol oddi wrth safonau |
| TECH OBJ10) | Lleihau'r angen i leihau cyfyngiadau cyflymder |
| TECH OBJ11) | Lleihau ar y tarfu yn ystod y gwaith adeiladu |

## 7. Y CYNLLUN ARFAETHEDIG

Byddai cyfanswm hyd y gefnffordd newydd (gan gynnwys slipffyrdd a'r drosbont) yn oddeutu 3070 metr, gyda 1540 metr o ffordd gyswllt ddwyffordd, a byddai'n effeithio ar 480 metr o ffyrdd ochr.

Byddai'r cynllun yn annog traffig i lifo'n rhydd yn y ddau gyfeiriad ar yr A55, gwella diogelwch ffordd ac yn gwella mynediad i gymunedau Penmaenmawr a Dwygyfylchi drwy amnewid y gylchfan yng Nghyffordd 16 gyda slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin yn unig ac uwchraddio Cyffordd 16A i gyffordd sy'n cael ei gwahanu a graddfa. Byddai'r slipffyrdd yn golygu bod modd cael mynediad i'r A55 ac ymadael â hi yn fwy diogel, gyda ffyrdd lleol yn cael eu haddasu i fodloni safonau dylunio priffyrdd cyfredol. Mae'r Cynllun yn cynnwys newidiadau i Gyffordd 16 ac 16A.

Yng Nghyffordd 16, byddai'r gylchfan bresennol ar y ddynesfa ddwyreiniol at Benmaenmawr yn cael ei hamnewid gan slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin. Byddai'r trefniant newydd yng Nghyffordd 16 yn cael ei ddefnyddio gan gerbydau tua'r gorllewin yn unig er mwyn cael mynediad i Benmaenmawr a chan gerbydau yn gadael Penmaenmawr i deithio tua'r gorllewin tua Bangor. Byddai'r gwaith yn cychwyn ar brif lein yr A55 oddeutu 510 metr i'r de-orllewin o gylchfan bresennol Cyffordd 16 ac yn ymestyn i'r gogledd-ddwyrain am bellter o 570 metr i oddeutu 270 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gylchfan. Byddai'r gyffordd ar-raddfa newydd yn gofyn am gymryd tir ychwanegol i'r de o'r A55 ac i'r de o Ffordd Conwy i hwyluso'r slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin a chylchfan newydd yn cysylltu Ffordd Conwy a Ffordd Ysguborwen. Byddai cyfanswm hyd y ffordd newydd yng Nghyffordd 16, gan gynnwys slipffyrdd, yn 950 metr.

Byddai cyffordd newydd dan reolaeth signalau ac wedi'i gwahanu ar raddfa yn cael ei hadeiladu ymhellach i'r dwyrain yng Nghyffordd 16A, yn Nwygyfylchi, gyda throsbont a slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a'r gorllewin a fyddai'n darparu symudiad pedair ffordd. Byddai'r slipffyrdd tua'r gorllewin yn codi ar argloddiau i uchder o oddeutu 9m uwchben y lefel daear presennol, i gwrdd â throsbont dros yr A55. Hefyd, byddai mynediad oddi ar y slipffordd tua'r dwyrain i waith trin dŵr Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW), ar ochr gogleddol yr A55.

Byddai prif linell yr A55 wedi'i hail-alinio a'r slipffyrdd estynedig yn cychwyn ar bwynt oddeutu 508 metr i'r de-orllewin o bwynt canol y gylchfan bresennol am bellter o 572 metr ar hyd y ffordd ddeuol i bwynt oddeutu 270 metr i'r gogledd-ddwyrain o bwynt canol y gylchfan bresennol , lle byddai'r ffordd yn meinhau yn ôl i gwrdd â'r ffordd ddeuol bresennol. Byddai cyfanswm hyd y ffordd newydd yng Nghyffordd 16A, gan gynnwys slipffyrdd a throsbont, yn 2120 metr.

Bydd ffordd gyswllt newydd yn rhedeg yn fras yn baralel â'r A55 ar yr ochr ddeheuol yn ffurfio cyffordd newydd â Ffordd Ysguborwen yn y gorllewin. Wrth ymestyn tua'r dwyrain, byddai'n pasio ger ochr ogleddol y tai ym Maes-y-Llan ac yna'n dolennu o amgylch ochr ddeheuol Caffi a Gorsaf Wasanaethau Puffin i gwrdd â'r gyffordd 16A newydd wedi'i gwahanu â graddfa. Byddai Ffordd Glan-yr-Afon, i Ddwygyfylchi a Chapelulo, yn cwrdd â'r ffordd gyswllt ar gyffordd 'T' ger Cyffordd 16A. Byddai cyfanswm hyd y ffordd newydd rhwng graddfa'r newidiadau i'r ffyrdd ochr, yn oddeutu 1,530 metr.

Byddai'r rhwydwaith priffyrdd presennol yn cael ei haddasu mewn nifer o leoliadau, lle byddai'r gwelliannau arfaethedig yn ymuno neu'n croestorri llwybrau.

Mae manylion y gwelliannau i ffyrdd ochr yn cynnwys:

- Ffordd Glan-yr-Afon - yn cynnwys gwaith ail-alinio a lledu'r ffordd yn lleol, dros hyd o 251m, fel bod modd i Ffordd Glan-yr-Afon gyfuno â'r ffordd gyswllt newydd. Byddai llawer o'r 207m o ffordd bresennol sy'n cael ei chau i fyny, wedi'i lleoli dan yr argloddiau newydd ar gyfer slipffordd ymadael Cyffordd 16A tua'r gorllewin a'r ffordd gyswllt. Byddai grid gwartheg yn cael ei ddarparu ar Ffordd Glan-yr-Afon.
- Ffordd Ysguborwen - Hyd newydd wedi'i ail-alinio o oddeutu 60 metr i gyfuno â'r ffordd gyswllt newydd. Byddai oddeutu 170m o'r hen ffordd naill ai'n cael ei hymgorffori i aliniad y ffordd gyswllt newydd neu ni fyddai ei hangen mwyach. Yn ddibynnol ar y dyluniad manwl, mae cyfle i ran o'r ffordd bresennol ddarparu rhan o lwybr troed y drws nesaf i The Oasis.
- Ffordd Conwy - Wedi'i hail-alinio dros hyd o oddeutu 170m i wneud lle i'r trefniant slipffordd tua'r gorllewin wedi'i uwchraddio yng Nghyffordd 16. Byddai rhan o'r aliniad gwreiddiol wedi'i leoli dan y slipffyrdd newydd, a'r gweddill wedi'i leoli mewn ardal o dirweddu arfaethedig.

Cyflymder Dyluniedig y Gefnffordd arfaethedig yw 120kya, a byddai'n destun cyfyngiadau cyflymder cenedlaethol. Byddai cyfyngiadau cyflymder y Ffyrdd Ochr yn unol â'r rhwydwaith ffyrdd lleol presennol.

Mae'r cynllun yn ymgorffori amrediad o fesurau teithio llesol i wella'r ddarpariaeth a wneir i gerddwyr a beicwyr. Rhagwelir y byddai'r rhain yn gwella ansawdd a chysylltedd y llwybrau cerdded a beicio presennol, gan gynnwys:

- Llwybr teithio llesol ar hyd y ffordd gyswllt - Llwybr beicio a llwybr troed ar y cyd ar ymyl y ffordd gyswllt, yn rhyngdorri â llwybrau troed presennol
- Pont droed a rampiau newydd gwasanaethau Puffin - Pont droed aml-rychwant drawst newydd gyda rampiau sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethau ar Sail Anabledd a gwell mynediad rhwng Dwygyfylchi, ffordd feicio NCNR5 a'r arfordir
- Gwelliannau i Ffordd Glan-yr-Afon - Llwybr beicio/llwybr troed newydd 160m ar hyd Ffordd Glan-yr-Afon i ddarparu gwell cysylltedd â Dwygyfylchi o'r dwyrain ac i'r llwybr newydd ar wahân arfaethedig ar hyd y ffordd gyswllt newydd.
- Gwelliannau i Ffordd Conwy - Llwybr beicio/ llwybr troed ar wahân 400m ar hyd ochr ogleddol Ffordd Conwy, gan ddarparu cyswllt rhwng ardal breswyl Penmaenmawr, Llwybr Troed presennol 29/06 a mwynderau lleol megis cae Clwb Pêl-droed Penmaenmawr Phoenix

Byddai'r cynllun yn defnyddio dulliau draenio pibell confensiynol i waredu dŵr o'r ffordd gerbydau. Byddai'r dull draenio hwn, ynghyd â'r storfa gwanhad, yn cael eu dylunio i storio dŵr wyneb ac yna'i ollwng i'r rhwydwaith presennol, dan lein rheilffordd arfordirol Gogledd Cymru ac yna i'r môr drwy ollyngfeydd presennol.

Byddai ffin y ffordd yn cael ei ffensio, lle bo angen, ar ffurf ffensys postyn a weiren *mesh* gwrth-stoc, er mwyn peidio ag annog stoc fferm ac anifeiliaid anwes o ardaloedd cyfagos ac ei ddarlunio tir ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru. Byddai angen ffurfiau arbennig o'r ffens hon, gyda *mesh* wedi'i gladdu islaw'r ddaear er mwyn osgoi'r risg o wrthdaro â rhywogaethau wedi'i gwarchod yn gyfreithiol, megis y mochyn daear a'r dyfrgi. Byddai angen ffensys pellach i beidio ag annog mynediad i leoliadau peryglus, megis pennau'r waliau cynnal a'r llethrau serth. Mewn lleoliadau eraill, lle mae asesiadau sŵn neu weledol a thirwedd yn nodi bod angen amdanynt, byddai'r ffin yn cael ei ffurfio gan waliau, neu, er enghraifft, gan rwystrau acwstig.

Byddai'r gwelliannau yn ymgorffori arwyddion, er enghraifft, mewn perthynas â chyffyrdd a chyrchfannau. Er na fyddai unrhyw Systemau Trafnidiaeth Deallus (ITS) yn cael eu darparu fel rhan o'r cynllun, mae'n cynnwys ar gyfer darparu dwythellau fyddai'n golygu bod modd i eraill osod ITS ar ôl i'r cynllun gael ei gwblhau.

Mae goleuadau ar y briffordd wedi'u darparu'n barod ar hyd y rhan hon o'r A55 ac ar ffyrdd sirol cyfagos. Byddai goleuadau newydd yn cael eu gosod ar hyd yr A55 ac yng Nghyffordd 16 i fodloni safonau presennol. Byddai'r goleuadau'n cael eu dylunio fel nad ydynt yn taflu unrhyw olau uwchben y lefel llorweddol. Cynigir defnyddio goleuadau LED gan y gallant gael eu cyfeirio'n fwy ac felly leihau'r goleuni sy'n cael ei daflu y tu hwnt i'r ffordd. Byddai goleuo'r ffordd gyswllt yn ddibynnol ar gytundeb â'r awdurdod priffyrdd.

Mae'r gofyniad i ddarparu ffordd ddiogel gyda gweledEDD da i yrwyr, cerddwyr a beicwyr yn golygu, o bryd i'w gilydd, bod nodweddion yn y lleoliad yn cael eu heffeithio'n andwyol gan agosrwydd y ffordd newydd a'r strwythurau a'r gwaith daear cysylltiedig. Mae'r llwybr wedi cael ei alinio i isafu effaith y cynllun ar eiddo cyfagos a nodweddion eraill.

Byddai angen addasu'r hawliau tramwy cyhoeddus a ganlyn:

- Llwybr Troed Rhif 29/08 - Gwaith gwyro llwybr troed lleol lle mae'r llwybr troed presennol yn croesi'r ffordd gyswllt arfaethedig.

## 8. YR ACHOS DROS BRYNIANT GORFODOL

Cyhoeddir y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft (CPO) dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981. Cyhoeddir y CPO drafft mewn cysylltiad â'r hyn a ganlyn:

Gorchymyn Cefnffordd Caer i Fangor (A55) (Gwelliannau Ail-alinio a Slipffyrdd Cyffordd 16 ac 16A) 202-

Gorchymyn Cefnffordd Caer i Fangor (A55) (Gwelliannau Ail-alinio a Slipffyrdd Cyffordd 16 ac 16A) (Ffyrdd Ochr) 202-

Mae angen y CPO i sicrhau bod y tir a'r hawliau sydd eu hangen ar gyfer y cynllun yn cael eu caffael yn brydlon.

Bydd y CPO, os bydd yn cael eu wneud, yn altro safle rhai pwyntiau mynediad. Bydd y Gorchmynion drafft yn golygu bod modd adeiladu'r mesurau lliniaru amgylcheddol priodol a'r dulliau mynediad amgen i dir sydd wedi'i effeithio gan y cynllun arfaethedig.

Mae cyfanswm y tir sydd wedi'i adnabod yn y CPO ar gyfer y cynllun yn cael ei ystyried fel y lleiafswm sydd ei angen i adeiladu'r cynllun arfaethedig a'i weithredu a'i gynnal a'i gadw wedi hynny ac i ddarparu'r mesurau lliniaru amgylcheddol, sy'n hanfodol i osgoi, lleihau ac unioni effeithiau andwyol arwyddocaol.

Wrth lunio'r cynigion rhoddwyd ystyriaeth i ymyrraeth â hawliau'r rhai hynny sydd â buddiannau yn y CPO a pwy fydd fel arall yn cael ei effeithio gan y cynllun.

## 9. PWERAU I ADEILADU'R CYNLLUN

Byddai'r cynllun yn cael ei awdurdodi a'i adeiladu gan defnyddio pwerau Gweinidogion Cymru fel Awdurdod Priffyrdd yn unol â Deddf Priffyrdd 1980 ar y cyd â Deddf Caffael Tir 1981.

Byddai'r pwerau i adeiladu'r rhannau newydd o gefnffordd yn cael eu gweithredu drwy wneud 'Gorchymyn Cefnffordd Caer i Fangor (A55) (Gwelliannau Ail-alinio a Slipffyrdd Cyffyrdd 16 ac 16A) 202-' sydd eisoes wedi'i gyhoeddi ar ffurf drafft.

Byddai'r grym i gau fyny, altro, gwella priffyrdd, llwybrau troed a dulliau mynediad preifat yn cael ei weithredu drwy wneud 'Gorchymyn Cefnffordd Caer i Fangor (A55) (Gwelliannau Ail-alinio a Slipffyrdd Cyffyrdd 16 ac 16A) (Ffyrdd Ochr) 202-', sydd eisoes wedi'i gyhoeddi ar ffurf drafft.

Fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer cefnffyrdd yng Nghymru, mae Gweinidogion Cymru wedi'u grymuso i wneud gwelliannau i'r gefnffordd bresennol (dan adran 62 Deddf Priffyrdd 1980) ac i adeiladu priffyrdd newydd (dan adran 24 Deddf Priffyrdd 1980).

Bydd y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft, os y'i gwneir, yn galluogi Gweinidogion Cymru i gaffael yr holl dir a'r hawliau dros y tir sydd ei angen ar gyfer y cynllun arfaethedig. Wrth lunio'r cynllun arfaethedig, rhoddwyd ystyriaeth i'r tarfu ar hawliau'r holl rai â budd yn y tiroedd perthnasol ac/neu a fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynllun fel arall.

## 10. MANNAU ADNEUO

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn drafft, map cysylltiedig, Datganiad Amgylcheddol, Crynodeb Annhechnegol, Hysbysiad Penderfyniad a'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol ar bob awr resymol yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, yn yr eiddo a ganlyn:

- Canolfan Gymunedol Maen Alaw, Fforrdd Bangor, Penmaenmawr LL34 6LE

**Dalier sylw:** Bydd mynediad i'r safleoedd hyn yn amodol ar y cyfyngiadau COVID-19 fydd yn weithredol ar y pryd. Yn sgil cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol Covid-19, bydd yn rhaid gwneud apwyntiad i weld y dogfennau. Er mwyn trefnu i edrych ar y dogfennau, cysylltwch â Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd y Cynllun, Mike Gilbert ar y rhif ffôn symudol: 07840 330 238 neu drwy'r e-bost: A55J15J16@Ramboll.com.

Dylai unrhyw un nad ydynt yn medru cael mynediad at y Gorchmynion yn ddigidol neu ymweld â'r lleoliadau adneuo gysylltu â'r Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus i wneud trefniadau amgen.

Gellir gweld copïau ychwanegol o'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru neu fe ellir eu gweld ar wefan y prosiect: www.gov.wales/a55-junctions-16-and-16A

## 11. CYFLWYNO GWRTHWYNEBIADAU I'R CPO DRAFFT

Gall unrhyw unigolyn sy'n dymuno gwrthwynebu'r CPO wneud hynny drwy ysgrifennu at y Gangen Gorchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1420042 gan nodi beth yw sail y gwrthwynebiad.

**Dalier Sylw:** Os byddwch yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu wneud sylwadau, bydd eich gohebiaeth yn cael ei hystyried gan Dîm y Prosiect ac efallai y byddwn angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, gallwn drosglwyddo gwybodaeth i eraill, yn cynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Er hynny, fe fyddwn ond yn datgelu eich manylion personol pan fo angen gwneud hynny i'n galluogi i ymdrin â materion a dynnwyd i'n sylw gennych. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon i drydydd partïon, dylech nodi pam wrth gyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd partïon perthnasol heb gynnwys yr enw a'r cyfeiriad. Os bydd y cynllun yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol (PLI) bydd Arolygydd yr Ymchwiliad Cyhoeddus yn gweld yr holl ohebiaeth ac fe'i cedwir yn Llyfrgell yr Ymchwiliad Cyhoeddus a bydd ar gael i'r cyhoedd.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gohebiaeth i gefnogi neu awgrymiadau amgen fel eu bod yn cyrraedd ddim hwyrach na'r dyddiad sydd wedi'i nodi ar hysbysiad cyhoeddus y CPO.

## 12. Y BROSES BENDERFYNU

Fel rhan o’r broses gwneud penderfyniadau, byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried yr holl ymatebion i’r Gorchmynion drafft ac yna’n penderfynu p’un i gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol.

Bydd y penderfyniad i fwrw ymlaen neu beidio i wneud y Gorchmynion drafft, yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru ar ôl ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr Arolygydd annibynnol, pe byddai Ymchwiliad Cyhoeddus yn cael ei gynnal.

Pe byddai’r CPO drafft yn cael ei lunio a bod y cynllun adeiladu yn mynd rhagddo, bydd Gweinidogion Cymru, drwy eu hasiant prisio, yn negodi gyda’r holl berchnogion tir gaiff eu heffeithio am iawndal am y tir sydd ei angen a, ble fo’n briodol, i ymgymryd â’r adeiladwaith ar eu tir a gedwir yn ôl i liniaru effaith y cynllun.